

## **Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty Rookwood, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro, Wardiau Pedwar a Phump  
(Canolfan Cymru ar gyfer Adsefydlu yn dilyn  
Anaf i Fadruddyn y Cefn)

Dyddiad arolygu: 1 a 2 Hydref 2019

Dyddiad cyhoeddi: 3 Ionawr 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd profiad y claf .....	11
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	29
4.	Beth nesaf? .....	33
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	34
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	35
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	36
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	38

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Rookwood sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 1 a 2 Hydref 2019. Ymwelwyd â'r ardal ganlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Rookwood (Canolfan Cymru ar gyfer Adsefydlu yn Dilyn Anaf i Fadruddyn y Cefn)

- Ward Pedwar
- Ward Pump

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC (un arweinydd), dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod tîm ymroddedig ac ymrwymedig o staff yn darparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn cael ei ddarparu ar sail unigol.

Er i ni nodi rhai meysydd i'w gwella, roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd a'r effaith ar safonau rheoli heintiau.

Hefyd, roedd potensial i drefniadau staffio'r gwasanaethau therapiwtig a'r gwasanaeth wroleg achosi oedi yn y broses o roi gofal amserol i'r cleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gofal roeddent wedi'i gael
- Gwelwyd gwaith tîm amlldisgyblaethol effeithiol
- Roedd gofal yn cael ei ddarparu mewn modd personol ac urddasol
- Gwelwyd gofal effeithiol mewn perthynas ag atal briwiau pwyso, cwmpadau a heintiau
- Gwelsom fod tîm yr uned yn cael ei reoli a'i arwain mewn ffordd gefnogol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trefnu'r wybodaeth i gleifion mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael arni
- Darparu offer arbenigol yn amserol er mwyn cynnal urddas y cleifion
- Sicrhau bod cloch galw nyrs ar gael i bob un o'r cleifion ei defnyddio
- Adolygiad o'r trefniadau staffio, gan gynnwys nyrsys, therapyddion galwedigaethol a'r gwasanaeth wroleg, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol

- Adolygiad ac asesiad risg mewn perthynas â storio offer yn yr uned
- Nifer o faterion yn ymwneud â rheoli heintiau
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaethau
- Gallu'r staff i gael hyfforddiant ac arfarniadau.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o sefydliadau GIG mwyaf y DU. Mae'n fwrdd iechyd addysgu sydd â chysylltiadau agos â phrifysgolion, a gyda'i gilydd, maent yn hyfforddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yn cydweithio ar waith ymchwil.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi tua 14,500 o staff ac yn gwario tua £1.4 biliwn bob blwyddyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd a llesiant i boblogaeth o tua 472,400 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled de a chanolbarth Cymru ar gyfer amrywiaeth o arbenigeddau, ac yn darparu gwasanaethau aciwt, gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl ac anabledau dysgu i oedolion a phlant. Darperir y gwasanaethau hyn drwy ysbytai aciwt, cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac optometryddion.

Mae Ysbyty Rookwood wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac mae'n gartref i nifer o wasanaethau, gan gynnwys Canolfan Cymru ar gyfer Adsefydlu yn dilyn Anaf i Fadruddyn y Cefn<sup>1</sup> (y cyfeirir ati drwy'r adroddiad fel 'yr uned'). Mae hon yn un o 12 o unedau arbenigol dynodedig yn y DU ac Iwerddon. Caiff cleifion eu derbyn o bob cwr o Gymru, a hynny'n bennaf o'r de a'r canolbarth. Gall cleifion o'r gogledd gael eu hatgyfeirio at ganolfan arall yng Nghroesoswallt, er mwyn iddynt allu cael gwasanaethau adsefydlu yn nes at adref.

Mae dwy ward yn yr uned, gyda 26 o welyau i gleifion mewnol gwrywaidd a benywaidd. Mae'r grŵp cleifion yn cynnwys oedolion ag amrywiaeth o anafiadau i fadruddyn y cefn, gan gynnwys anafiadau o ganlyniad i drawma, anafiadau meddygol, anafiadau ar ôl llawdriniaeth a spina bifida.

Caiff wardiau pedwar a phump eu rheoli gan un rheolwr ward, ac roedd y tîm nyrsio a chymorth yn hyblyg o ran symud o'r naill ward i'r llall yn unol ag anghenion y cleifion. Roedd cyfleusterau a rennir i'r cleifion, fel cegin, ardal golchi

---

<sup>1</sup> <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/spinal-rehabilitation>



dillad ac ystafell fwyta. O ganlyniad i hynny, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn ymwneud â ward pedwar a phump yn yr un modd.

Caiff yr uned ei hadleoli i Ysbyty Llandochoau ym mis Ebrill 2021.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y sylwadau a wnaed gan y cleifion yn dangos eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent wedi'i gael yn yr uned.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â pharch ac yn ymdrechu i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Gwelsom waith tîm amlddisgyblaethol effeithiol a oedd yn helpu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion a'u gofalwyr allu rhoi adborth ar eu profiadau.

Roedd prinder rhai darnau o offer yn effeithio ar rai agweddau ar urddas y cleifion.

Mae angen cynnal adolygiad o'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan gynnwys therapi galwedigaethol ac wroleg er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal mewn modd amserol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â'r cleifion a dosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Fy nhrin fel aelod o'r teulu. Weithiau rwy'n teimlo eu bod nhw'n fy ngwthio i'n galetach nag sydd angen ond rwy'n gwybod mai er fy lles i mae hynny yn y tymor hir."*

*"Mae'r staff yn dda iawn ac yn barod i helpu."*

*"Mae'r driniaeth yma wedi bod yn berffaith!"*

Rhoddodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC sgôr o naw neu ddeg allan o ddeg am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt. Roedd pob un o'r cleifion naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y staff yn garedig ac yn sensitif tuag atynt wrth ddarparu gofal a thriniaeth.

## Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth ar gael i'r cleifion, a bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon i'w chael yn ystafell fwyta'r cleifion. Er i ni weld bod amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael, roedd yn anodd pori drwyddi ac nid oedd mewn trefn resymegol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried aildrefnu'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio.

## Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnyn nhw a'u teuluoedd a'u ffrindiau, a bod y staff yn defnyddio eu dewis enwau.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nifer o enghreifftiau o ofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd bersonol, urddasol a sensitif. Gwelsom fod y staff yn ymdrechu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth eu helpu gyda'u hanghenion gofal personol. Er enghraifft, gwelsom fod y llenni'n cael eu cau'n llawn o gwmpas y gwelyau pan oedd y staff yn helpu'r cleifion gyda'u hanghenion gofal personol.

Roedd y staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, bod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hybu, a bod y cleifion a/neu eu gofalwyr/perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal yn yr uned.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael gofal da yn yr uned. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi trefnu i therapydd ddod i'r uned yn ddiweddar, i gynnig gwasanaethau i'r cleifion, megis triniaethau harddwch, tylino'r corff ac adweitheg. Roedd y gwasanaethau hyn ar gael yn rhad ac am ddim, gyda chymorth elusen bwrpasol ar gyfer yr uned, sef Rookwood SPUR<sup>2</sup>. Dywedwyd wrthym hefyd fod

---

<sup>2</sup> Rookwood SPUR - <https://www.rookwoodspur.org.uk/home#!>

triniwr gwallt a barbwr yn dod i'r uned yn rheolaidd er mwyn i'r cleifion allu gofalu am eu hymddangosiad.

Fodd bynnag, gwelsom fod yr amgylchedd cyffredinol mewn cyflwr gwael, ac nad oedd yn adlewyrchu'r gofal o safon uchel a ddarperir. Caiff hyn ei drafod mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

Gwelsom hefyd fod nifer o gadeiriau arbenigol sy'n helpu'r cleifion i ddefnyddio'r ystafell ymolchi wedi torri ar hyn o bryd. Gwelsom fod rhai ohonynt wedi bod yn aros i gael eu hatgyweirio ers mis Awst 2019. Dywedwyd wrthym y byddai rhannau'n cyrraedd cyn bo hir er mwyn iddynt gael eu hatgyweirio. Dywedodd y cleifion wrthym fod hyn yn effeithio ar eu gofal, am fod angen iddynt aros nes bod cadair addas ar gael. Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym fod hyn yn golygu y byddent yn deffro'n gynnar er mwyn sicrhau bod cadair ar gael iddynt allu defnyddio'r ystafell ymolchi. Esboniodd y cleifion, pe na baent yn gwneud hyn, y byddai'n aml yn golygu bod angen iddynt aros tan ganol neu ddiwedd y bore cyn gallu ymolchi a gwisgo.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod offer cynorthwyol ar gael i'r cleifion sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r ystafell ymolchi yn amserol.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y cleifion wrthym yn yr holiaduron fod y staff yn siarad â nhw am eu cyflwr ac wedi eu helpu i'w ddeall.

Roedd y staff yn yr uned yn cynnal rhaglen dreigl i roi gwybodaeth i gleifion newydd eu derbyn am y daith adsefydlu, o'r enw'r Rhaglen Gwybodaeth am Fadruddyn y Cefn. Mae nifer o weithwyr proffesiynol gwahanol yn mynychu'r rhaglen ac yn rhoi gwybodaeth arbenigol i'r cleifion am nifer o feysydd. Roedd y rhaglen ar gael i'r holl gleifion, a gellid ymuno â hi ar unrhyw adeg yn ystod eu taith adsefydlu.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflwr ac wedi eu helpu i'w ddeall.

Dywedodd un claf a gwblhaodd holiadur:

*“Mae pawb wedi bod yn dda iawn wrtha i ac os wyf wedi gofyn cwestiwn maen nhw bob amser wedi ymchwilio i'r mater – parod iawn i helpu.”*

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos o gwmpas yr uned ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu defnyddio cyfieithydd ar y pryd er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Roedd therapyddion lleferydd ac iaith yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol, ac roeddent yn gallu rhoi cymorth arbenigol i'r rhai ag anghenion cyfathrebu ychwanegol.

Ni welsom hysbysfwrdd mewn perthynas â'r staff sy'n gweithio yn yr uned. Byddai hyn yn galluogi'r cleifion, eu teuluoedd a'u hymwelwyr i adnabod y staff sy'n gweithio yn yr uned yn hawdd.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried y ffordd orau o sicrhau y gall y cleifion a'u hymwelwyr adnabod y staff sy'n gweithio yn yr uned yn hawdd.

### **Gofal amserol**

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y staff yn sylwgar ac yn ymatebol i geisiadau'r cleifion am gymorth, a hynny mewn modd amserol. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod cloch galw nyrs ar gael iddynt ei defnyddio, ond dywedodd un claf nad oedd cloch o'r fath ar gael iddo. Roedd y cleifion yn cytuno y byddai'r staff yn dod atynt pan fyddent yn ei defnyddio.

Gwelsom fod prinder staff yn y tîm therapi galwedigaethol, o ganlyniad i salwch, gwyliau a swyddi gwag. Roedd hyn yn effeithio ar allu'r adran i ddarparu triniaethau therapi galwedigaethol arbenigol mewn modd amserol.

Ar adeg yr arolygiad, dim ond hanner y staff gofynnol oedd gan y tîm therapi galwedigaethol. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn golygu nad oeddent yn gallu derbyn unrhyw atgyfeiriadau newydd, eu bod yn pryderu nad oedd y cleifion yn gallu cael gofal amserol, a'u bod yn credu bod hyn yn cael effaith andwyol ar y broses o'u hadsefydlu. Hefyd, dywedodd y cleifion wrthym fod hyn wedi effeithio ar eu gofal, gan olygu nad oeddent yn gweld therapyddion galwedigaethol mor aml ag o'r blaen.

Nododd y staff na ddarparwyd llawer o wasanaethau wroleg, a ddarperir gan feddyg ymgynghorol yn yr uned, dros y misoedd diwethaf oherwydd problemau staffio o fewn y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym y dylai wrolegydd ymgynghorol fod yn darparu gwasanaeth rheolaidd i'r cleifion, ond mai dim ond unwaith y mis y cafodd y gwasanaeth hwn ei ddarparu yn ystod mis Mehefin, mis Gorffennaf a mis Awst. Golygai hyn nad oedd y cleifion bob amser yn cael cymorth wroleg mewn modd amserol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod botwm galw ar gael i bob un o'r cleifion
- Adolygu lefelau staffio therapyddion galwedigaethol er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol ar gael i ddarparu gofal mewn modd amserol a phriodol
- Rhoi sicrwydd bod gwasanaeth wroleg ar gael i'r cleifion a'u bod yn cael y gwasanaeth hwnnw yn amserol yn yr uned.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd yr uned yn darparu gwasanaethau adsefydlu arbenigol i gleifion ag anafiadau i'r asgwrn cefn. Disgrifiodd y staff y gwaith tîm amlddisgyblaethol effeithiol a geir er budd y cleifion. Roedd y timau hyn yn cynnwys nifer o weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, megis rheolwr yr uned, staff y wardiau, uwch-nyr, therapyddion galwedigaethol, staff meddygol, ffisiotherapyddion, dietegwyr, arbenigwyr lleferydd ac iaith a nyrs cyswllt rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Roedd aelod o'r staff yn cael ei glustnodi i bob claf fel gweithiwr allweddol y gallai gysylltu ag ef petai ganddo unrhyw ymholiadau neu bryderon. Gallai'r gweithiwr allweddol hefyd weithredu fel eiriolwr yn ystod cyfarfodydd cynllunio nodau, pe na bai'r claf yn gallu eirioli ar ei ran ei hun, neu pe na bai ganddo deulu na ffrindiau i'w helpu gyda hyn.

Roedd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol yn cael eu cynnal i drafod y cleifion a'u cynnydd yn yr uned. Roedd cyfarfodydd cynllunio nodau misol yn cael eu cynnal hefyd, ac roedd y rhain hefyd yn cynnwys nifer o weithwyr proffesiynol.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym bod y therapyddion galwedigaethol yn aml yn methu â bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn oherwydd prinder staff o'r fath, ac y byddai eu hadborth yn cael ei gyflwyno cyn y cyfarfodydd.

Roedd gan y cleifion gynlluniau adsefydlu unigol, a byddai'r therapiâu'n cael eu teilwra i ddiwallu anghenion unigol. Roedd campfa ar gael i'r uned ei defnyddio, yn ogystal â phwll therapi a thîm cymorth ehangach o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol. Siom oedd gweld nad oedd modd defnyddio'r pwll therapi ar adeg yr arolygiad. Gwnaethom siarad â'r cleifion, y staff ac aelodau o'r tîm ystadau, a ddywedodd wrthym fod cyfnodau eraill wedi bod eleni pan nad oedd modd ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y pwll yn hen a bod angen ei atgyweirio'n aml, gan olygu nad oedd y cleifion yn gallu defnyddio'r holl gyfleusterau adsefydlu sydd ar gael iddynt.

Roedd byngalo bach ar y safle a oedd wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol i alluogi'r cleifion a'u teuluoedd i dreulio amser ar eu pen eu hunain wrth baratoi i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Nid oedd y cyfleuster hwn wedi cael ei ddefnyddio ers tua blwyddyn am fod angen ei adnewyddu. Yn ystod cam cychwynnol y gwaith adnewyddu, gwelwyd bod problemau sylweddol gyda'r adeilad a olygai nad oedd modd ei ddefnyddio'n barhaol. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i adeiladu byngalo pwrpasol newydd ar y safle newydd yn Ysbyty Llandochau, y disgwylir iddo agor yn 2021.

Roedd y cleifion yn cael cymorth i adael yr uned a threulio amser yn y gymuned leol. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r siopau a'r caffis lleol, a oedd yn eu helpu i adsefydlu ac yn eu paratoi i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Roedd elusen Rookwood SPUR hefyd yn helpu cleifion i fynd i ddigwyddiadau chwaraeon, er enghraifft gemau rygbi.

### **Hawliau pobl**

Drwy gydol yr arolygiad hwn gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig tuag at y cleifion ac yn eu trin fel unigolion heb wahaniaethu yn eu herbyn.

Gwelsom ymwelwyr yn dod i weld y cleifion yn ystod yr arolygiad, a oedd yn galluogi'r cleifion i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

### **Gwrando ar adborth a dysgu ohono**

Roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi trefniadau ar waith er mwyn i'r cleifion a'u teuluoedd roi adborth ar eu profiadau o'r gofal a ddarparwyd. Roedd holiadur yn cael ei roi i'r cleifion bob chwarter er mwyn casglu eu hadborth unigol, a gwelsom fod camau gweithredu wedi cael eu cymryd yn y gorffennol er mwyn helpu i wella gwasanaethau o ganlyniad i'r adborth a roddwyd gan y cleifion.

Hefyd, roedd gan y bwrdd iechyd broses ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) a godwyd gan y cleifion neu eu teuluoedd/frindiau. Roedd hyn yn cydymffurfio â

phroses Gweithio i Wella<sup>3</sup> GIG Cymru. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym y byddent yn annog y cleifion i godi pryderon â'r staff yn syth, gyda'r bwriad o allu datrys problemau yn y fan a'r lle. Un enghraifft ddiweddar oedd bod cleifion wedi nodi eu bod yn anfodlon ar y dewisiadau bwyd a oedd ar gael iddynt o ganlyniad i newid i'r gwasanaeth. Nododd yr uwch-nyrs fod y mater hwn wedi cael ei godi â hi ar lafar, a'i bod wedi trefnu cyfarfod â'r rheolwr arlwyo i drafod opsiynau amgen.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd yn cadw gwybodaeth am gwynion ffurfiol, er mwyn ceisio deall unrhyw themâu neu dueddiadau. Roedd gwybodaeth am y broses yn cael ei harddangos yn yr uned, yn ogystal â manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol, petai'r cleifion am geisio cymorth neu gyngor mewn perthynas â'r broses.

---

<sup>3</sup> Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>



## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal o safon uchel yn cael ei ddarparu, a hynny gan dîm ymroddedig ac ymrwymedig o staff. Fodd bynnag, gwelsom fod amgylchedd yr uned mewn cyflwr gwael iawn, gan arwain at nifer o faterion yn ymwneud â rheol heintiau.

Nid oedd digon o le storio yn yr uned, gan olygu bod offer yn cael eu storio mewn coridorau, o gwmpas yr uned ac yn ardaloedd y cleifion. Roedd hyn yn achosi perygl posibl o faglu.

Gwnaethom argymell lle y gellid gwneud gwelliannau i rai agweddau ar reoli meddyginiaethau, ac mewn perthynas â chofnodi poen y cleifion.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ar y cyfan, gwelsom fod amgylchedd yr uned mewn cyflwr gwael. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau wedi bod ar waith i adleoli'r gwasanaeth i Ysbyty Llandochau ers nifer o flynyddoedd, ond bod y cynlluniau hyn wedi cael eu hoedi a'u gohirio sawl gwaith. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr mai'r cynllun presennol oedd y byddai'r uned newydd yn agor ym mis Ebrill 2021.

Nid oedd digon o le storio yn yr uned ar gyfer offer mawr megis teclynnau codi, cadeiriau olwyn a chadeiriau ymolchi, gan olygu eu bod yn cael eu storio yn y coridorau ac o gwmpas yr uned. Hefyd, gwelsom fod silindrau ocsigen gwag a thiwbiau wedi cael eu gadael o gwmpas yr uned. Golygai hyn fod yr amgylchedd yn anniben, a bod perygl posibl y gallai'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr faglu.

Dros y dyddiau cyn ein harolygiad, roedd dŵr wedi gollwng o'r to drwy'r nenfwd ac i mewn i'r uned. Gwelsom ddifrod gan ddŵr ar rai o deils y nenfwd. Roedd y digwyddiad hwn hefyd wedi achosi difrod i'r ystafelloedd ymolchi i ddynion, gan olygu bod y cyflenwad trydan i un ystafell ymolchi a thoiled, ac yn un coridor yn yr uned, wedi cael ei ddiffodd. Roedd y tîm ystadau'n bresennol yn ystod yr arolygiad a rhoddwyd sicrwydd i ni bod mesurau ar waith i sicrhau bod yr ardal

yn ddiogel i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr. Yn ystod yr arolygiad, roedd un toiled ac un ystafell ymolchi yn dal i beidio â chael eu defnyddio.

Dywedodd un claf a gwblhaodd holiadur:

*“Mae'r lle hwn – sut bynnag y mae'n edrych – yn rhyfeddol”*

Gwelsom fod yr amgylchedd yn effeithio ar y gallu i gynnal safonau effeithiol o ran rheoli heintiau, a thrafodir hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau amrywiaeth o asesiadau nyrsio er mwyn nodi'r cleifion hynny a all wynebu risg o ddatblygu briwiau pwysu a risg o gwmpo, neu'r rhai ag anghenion bwyta ac yfed penodol. Nodir ein canfyddiadau penodol yn nes ymlaen yn yr adran hon, sef Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.

Disgrifiodd yr uwch staff drefniadau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau clinigol, eu cofnodi, ymchwilio iddynt a rhannu'r hyn a ddysgwyd ohonynt. Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y bwrdd iechyd yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Roedd y staff hefyd yn cytuno y byddai'r bwrdd iechyd yn cymryd camau gweithredu i sicrhau na fyddant yn digwydd eto. Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y bwrdd iechyd yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg.

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r staff wrthym yn yr holiaduron eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau yn y sefydliad, ac yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gyflawni ar gyfer yr offer sy'n cael eu storio yn yr uned, er mwyn sicrhau bod diogelwch y staff, y cleifion a'r ymwelwyr yn cael ei reoli'n briodol.

#### Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion, a gwelsom fod y cleifion wedi cael eu hasesu o ran eu risg o ddatblygu briwiau pwysu. Roedd adnodd asesu risg cydnabyddedig wedi cael ei gwblhau ar gyfer pob claf ac roedd cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith i roi cyfarwyddiadau i'r staff nyrsio ar y gofal

roedd ei angen. Roedd y cleifion hynny ag anawsterau symud, neu'r rhai a oedd yn gaeth i'r gwely, yn cael cymorth i newid eu safle'n rheolaidd, er mwyn helpu i'w hatal rhag datblygu briwiau pwysu. Fodd bynnag, nid oeddem o'r farn bod y cofnodion gofal yn disgrifio nac yn dogfennu'r lefel uchel o ofal a ddarperir yn llawn. Er enghraifft, gwelsom fod y staff yn helpu'r cleifion i ddefnyddio offer arbenigol i atal briwiau pwysu, ond nid oedd hyn wedi'i ddogfennu'n llawn yn y cofnodion. Gwneir argymhelliad ynglŷn â hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Roedd y cofnodion monitro'n dangos bod y staff wedi archwilio croen y cleifion yn rheolaidd er mwyn canfod arwyddion o friwiau pwysu a niwed i feinweoedd.

### Atal cwmpadau

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod y cleifion wedi cael eu hasesu o ran y risg o gwmpo. Roedd cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom ddarnau o offer yn cael eu storio yn yr uned ac o'i chwmpas, gan arwain at berygl posibl o faglu.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr uned yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol, fel ffedogau a menig untro, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio gan y staff. Fodd bynnag, roedd y staff yn defnyddio ffedogau y dylid eu defnyddio i ddosbarthu bwyd yn unig. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwyr a esboniodd fod y bwrdd iechyd wedi profi prinder ffedogau priodol, bod stoc newydd wedi cael ei harchebu a'u bod yn aros iddi gyrraedd.

Gwelsom y staff yn gwisgo menig a ffedogau newydd i ddosbarthu bwyd, ond gwelsom eu bod yn cael eu newid yn llai aml rhwng cleifion. Gwnaeth un claf y sylw canlynol:

*“Wedi sylwi nad yw'r staff yn newid menig na ffedog rhwng cleifion.”*

Roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo yn amrywio drwy'r uned. Nid oedd basn golchi dwylo mewn un o ardaloedd gwelyau'r cleifion, ac nid oedd

basnau golchi dwylo dynodedig yn yr ystafell olchi<sup>4</sup> na chegin y cleifion chwaith. Roedd angen i'r staff a'r cleifion ddefnyddio cyfleusterau amgen mewn gwahanol rannau o'r uned. Roedd y staff a'r rheolwyr yn gwbl ymwybodol o'r problemau, a gwnaethant ddweud bod y cyfleusterau'n annigonol. Mae hylendid dwylo effeithiol yn bwysig er mwyn lleihau'r risg y bydd cleifion yn dal heintiau drwy ofal iechyd.

Roedd gel hylendid dwylo i'w gael ym mhob rhan o'r uned, ond nid oedd gel o'r fath ar gael yn y fynedfa i'r uned er mwyn i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr ei ddefnyddio wrth ddod i mewn. Gwelwyd bod rhai o'r unedau dosbarthu gel dwylo yn wag, ac nid oedd yn hawdd gwahaniaethu rhwng yr unedau dosbarthu gel a'r unedau dosbarthu sebon.

Fel y nodwyd o'r blaen, nid oedd digon o le i storio offer, gan olygu bod offer yn cael eu storio ar y lloriau, mewn coridorau ac o gwmpas gwelyau'r cleifion, gan wneud yr amgylchedd yn anniben ac felly'n anodd ei lanhau'n effeithiol.

Lle roedd offer a dillad gwely'n cael eu storio mewn cypyrddau, gwelsom eu bod yn anhrefnus ac yn anniben. Gwelsom fod dillad gwely'n cael eu storio ar y llawr yn y cwpwrdd dillad gwely. Dywedodd un claf ei fod wedi gweld clustogau'n cael eu rhoi ar ben cypyrddau dillad a hefyd yn cael eu rhoi ar y llawr. Gwelwyd bod llawer o eitemau personol ar fyrddau'r cleifion hefyd, gan olygu ei bod yn anos eu glanhau.

Roedd cegin ar gael i'r cleifion ei defnyddio, a olygai y gallent storio eu bwyd eu hunain, paratoi rhai prydau a golchi eu dillad eu hunain. Fodd bynnag, gwelsom fod angen glanhau'r oergell gan fod rhywbeth wedi cael ei golli ynddi. Hefyd, gwelsom fod rhai o'r bwydydd wedi darfod, a allai beri risg i iechyd y cleifion.

Roedd peiriant gwneud rhew yn y gegin hefyd, a oedd yn peri risg posibl o ran rheoli heintiau. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod wedi cael cyngor a oedd yn cadarnhau ei bod yn ddiogel defnyddio'r peiriant, ond nid oeddem yn gallu gweld y cadarnhad hwn na chontract cynnal a chadw, a gwnaethom gynghori y dylid cyflawni asesiad risg pellach. Nid oedd cegin y cleifion yn cynnwys rhannau ar wahân ar gyfer golchi dillad, paratoi bwyd a golchi llestri, gan olygu bod risg o

---

<sup>4</sup> Defnyddir ystafelloedd golchi i waredu cynhyrchion gwastraff dynol cleifion yn effeithlon.

groes-halogi. Fel y nodwyd o'r blaen, nid oedd basn golchi dwylo dynodedig yng nghegin y cleifion, nac uned dosbarthu sebon na gel hylendid dwylo chwaith.

Er bod dwy ystafell olchi yn yr uned, nid oedd y naill na'r llall yn cael ei defnyddio. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwyr a esboniodd nad oedd yr adeilad na'r safle yn gallu rheoli'r trefniadau golchi, ac nad oedd cynlluniau ar waith i'w hatgyweirio. Gwelsom fod y staff yn gwaredu cynhyrchion gwastraff dynol yn briodol, ac roedd asesiad risg ar waith i reoli'r broses.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r biniau a ddefnyddir ym mhob rhan o'r uned naill ai'n anaddas i'w defnyddio gan gleifion neu wedi torri. Biniau pedal troed oedden nhw, a oedd yn golygu y byddai cleifion mewn cadeiriau olwyn yn ei chael hi'n anodd iawn eu defnyddio. Gwelsom hefyd nad oedd rhai biniau'n agor yn effeithiol wrth ddefnyddio'r pedal troed, gan olygu y byddai angen i chi defnyddio eich llaw i'w hagar, a oedd yn peri risg o ran rheoli heintiau.

Ar y cyfan, gwelsom fod yr amgylchedd cyffredinol mewn cyflwr gwael ac nad oedd yn gallu cynnal safonau digonol o ran rheoli heintiau. Gwelsom fod paent yn pilio oddi ar y waliau, bod eiddew'n tyfu y tu mewn i'r ffenestri yn un o ystafelloedd swyddfa'r staff, a bod llwyni nad oeddent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn atal golau rhag dod i mewn drwy rai ffenestri. Roedd y nenfwd wedi'i ddifrodi mewn nifer o ardaloedd yn yr uned, a hynny o ganlyniad i ddifrod gan ddŵr.

Gwelsom hefyd nad oedd llawer o opsiynau ar gael i'r staff petai angen darparu nyrsgo ataliol i glaf, er mwyn atal unrhyw groes-heintio posibl. Roedd ystafelloedd unigol ar gael, ond roeddent yn fach ac mae'n bosibl na fyddai modd defnyddio'r holl offer angenrheidiol ynddynt i gefnogi pob claf.

Gwnaethom drafod y materion amgylcheddol a godwyd yn fanwl â'r uwch-reolwyr ac aelodau o dîm ystadau'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod y materion amgylcheddol yn flaenoriaeth uchel i'r bwrdd iechyd ac, fel y nodwyd o'r blaen, roedd cynlluniau ar waith i adleoli'r gwasanaeth i amgylchedd newydd yn 2021.

Gwnaethom edrych ar gomodau a chadeiriau ymolchi a gwelsom eu bod yn lân iawn.

Roedd trefniadau ar waith i storio offer miniog meddygol wedi'u defnyddio, megis nodwyddau, yn ddiogel cyn cael eu casglu i gael eu gwaredu. Gwelsom hefyd fod bagiau lliw gwahanol yn cael eu defnyddio i wahanu gwastraff clinigol ac anghlinigol fel y gellid ei waredu'n briodol.

Er gwaethaf y pryderon a godwyd mewn perthynas â rheoli heintiau, gwelsom fod cyfradd heintiau'r uned yn isel iawn.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff safonau rheoli heintiau eu cynnal bob amser mewn perthynas â'r canlynol:

- Bod y staff yn newid cyfarpar diogelu personol ar ôl rhoi gofal i un claf cyn rhoi gofal i glaf arall
- Sicrhau bod digon o gel hylendid dwylo ar gael yn y fynedfa i'r uned
- Bod y cypyrddau a ddefnyddir i storio offer yn drefnus, yn lân ac yn daclus ac nad yw dillad gwely yn cael eu storio ar y llawr
- Mae angen asesu addasrwydd y peiriant rhew yng nghegin y cleifion ymhellach
- Ystyried a yw trefniadaeth, cynllun unedau, offer, cyfleusterau golchi dwylo a defnydd bwriadedig cegin y cleifion yn briodol
- Sicrhau bod unrhyw fwydydd sydd wedi darfod yn cael eu tynnu allan o'r oergell, a bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal
- Sicrhau bod pob bin yn yr uned yn gweithio'n iawn ac yn briodol i bob claf ei ddefnyddio
- Cynnal asesiad risg er mwyn sicrhau y gall yr uned gyrraedd safon addas o ran nyrsio ataliol, os bydd angen.

## Maeth a hydradu

Wrth edrych dros gofnodion gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion wedi cael asesiadau o'u hanghenion gofal bwyta ac yfed. Fel rhan o'r dull amlddisgyblaethol, roedd dietegwyr yn rhan o'r broses o gynllunio gofal a nodau'r cleifion, er mwyn helpu i sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu.

Gwnaethom arsylwi ar ginio'n cael ei weini, a gwelsom fod y prydau'n cael eu dosbarthu gan ddefnyddio troli a'u gweini tra oeddent yn dal yn boeth. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i fwyta eu prydau yn yr ystafell fwyta, ond roeddent yn gallu bwyta wrth ochr eu gwelyau hefyd, yn dibynnu ar eu dewis personol. Gwelsom fod y cleifion roedd angen cymorth arnynt yn cael eu blaenoriaethu ac yn cael cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu bwyta eu prydau tra oeddent yn boeth. Ni welsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r prydau gael eu gweini.

Nododd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn anfodlon ar yr amrywiaeth o brydau a oedd yn cael ei chynnig iddynt, gan esbonio bod y dewis yn gyfyngedig. Gan mai uned adsefydlu yw hon, mae'r cleifion yn treulio cyfnodau hir o amser arni, gan olygu eu bod yn cael cynnig yr un fwydlen pythefnos o hyd am gyfnodau sylweddol o amser. Esboniodd yr uwch-nyrs ei bod wedi trefnu i siarad â'r rheolwr arlwyo yr wythnos ganlydol i ystyried opsiynau bwyd amgen/ychwanegol i'r cleifion.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn cael digon o amser i fwyta'u bwyd ar eu cyflymder eu hunain a bod dŵr ar gael bob amser.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i brydau bwyd gael eu gweini.

#### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod meddyginiaeth y cleifion yn cael ei storio'n ddiogel yn eu cabinetau eu hunain wrth ochr eu gwelyau. Dim ond drwy ddefnyddio cod y gellid agor y cabinetau hyn, er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Roedd oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu storio mewn ystafell dan glo, a gwelsom fod tymereddau'r oergelloedd wedi cael eu mesur yn ddyddiol er mwyn sicrhau eu bod yn aros o fewn lefelau priodol. Roedd cofnodion o fesur y tymereddau'n cael eu cadw hefyd.

Er bod y cleifion yn storio eu meddyginiaethau eu hunain, roedd yr uned hefyd yn cadw cyflenwad o feddyginiaethau amrywiol yn yr uned. Roedd y rhain yn cael eu cadw mewn cwpwrdd mewn ystafell dan glo er mwyn eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai meddyginiaethau a oedd wedi darhod hefyd yn cael eu storio yn yr un cwpwrdd. Dywedwyd wrthym eu bod yn aros i gael eu casglu a'u gwaredu gan y fferyllwyr. Gwnaethom godi hyn â'r uwch-aelodau o'r staff, am ein bod yn pryderu y gall fod risg y byddai'r staff yn rhoi'r feddyginiaeth sydd wedi darhod i'r cleifion. Yn ystod yr arolygiad, rhoddwyd sicrwydd i ni bod y meddyginiaethau hyn wedi cael eu cadw ar wahân i'r rhai a oedd yn cael eu defnyddio ar y pryd, a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel wrth aros i gael eu casglu i'w gwaredu.

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu storio a'u rheoli'n ddiogel a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw.

Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau cyffuriau ar gyfer y cleifion. Ar y cyfan, gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n gywir. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond pan oedd gan glaf alergedd oedd hyn yn cael ei ddogfennu'n glir, gan olygu bod y siart yn cael ei gadael yn wag ar gyfer y cleifion hynny heb alergeddau. Mae hyn yn peri risg y gellir tybio nad oes gan glaf alergeddau mewn achos lle nad yw alergedd sydd ganddo wedi cael ei gofnodi o bosibl.

Nid oedd pob un o'r cleifion yn gwisgo bandiau adnabod er mwyn helpu'r staff i roi meddyginiaeth yn ddiogel. Trafodwyd hyn â'r cleifion, y staff a'r uwch-reolwyr. Dywedwyd wrthym fod rhai cleifion wedi gwrthod gwisgo bandiau adnabod am mai uned adsefydlu yw hon a'u bod yn gallu cadarnhau eu manylion personol wrth y staff. Fodd bynnag, erys risg i'r cleifion mewn sefyllfaoedd megis claf yn llewygu, lle na fyddai'r claf yn gallu cyfathrebu ag aelod o'r staff o bosibl, er mwyn cadarnhau pwy ydyw.

Roedd y staff yn gallu defnyddio fferylllydd dynodedig a oedd yn gallu cynnig cymorth a chynghor i'r staff a'r cleifion ynglŷn â meddyginiaethau a ddefnyddir yn yr uned. Dywedodd y staff ei bod yn ofynnol iddynt roi gwybod i'r fferyllfa am unrhyw anghenion meddyginiaeth erbyn 3pm, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael stoc y diwrnod hwnnw. Dywedodd y staff wrthym fod yn rhaid i'r cleifion aros tan y diwrnod canlynol i gael eu meddyginiaeth weithiau, oni thbyr ei fod yn gais brys, a fyddai'n golygu y byddent yn ei chael y diwrnod hwnnw.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer meddyginiaeth sydd wedi dar fod a bod meddyginiaeth o'r fath yn cael ei thynnu oddi yno a'i gwaredu'n brydlon, lle bo hynny'n berthnasol
- Sicrhau bod gwybodaeth am alergeddau'n cael ei diweddarau'n glir yng nghofnodion yr holl gleifion
- Ailasesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chleifion nad ydynt yn gwisgo bandiau adnabod, yn enwedig ar gyfer sefyllfaoedd megis claf yn llewygu a'i anallu i gyfathrebu mewn sefyllfaoedd o'r fath.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd yr uned yn darparu gofal i oedolion yn unig. Roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith i hybu lles a diogelwch oedolion sy'n



agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Gwelsom fod y rhain ar gael i'r staff drwy fewnwyd y bwrdd iechyd.

Roedd uwch-aelodau o'r staff yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu. Gwnaethant hefyd gadarnhau bod cyngor a chymorth ar gael i'r staff gan dîm diogelu penodedig. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ceisio cyngor gan reolwr yr uned yn achos unrhyw faterion neu bryderon yn ymwneud â diogelu.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur, pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Yn ogystal â hynny, dywedodd mwyafrif o'r staff wrthym hefyd y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am arferion clinigol anniogel, a'u bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt

### **Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig**

Roedd llawer o offer ar gael i'r uned eu defnyddio er mwyn helpu i gefnogi'r cleifion wrth iddynt gael eu hadsefydlu. Fodd bynnag, gwelsom na allai rhai darnau o offer gael eu defnyddio am eu bod yn aros i gael eu hatgyweirio a/neu eu hadnewyddu, fel y nodwyd o'r blaen.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion sy'n aros i gael cadeiriau olwyn trydan addas, naill ai i'w defnyddio yn yr uned neu cyn cael eu rhyddhau, wynebu cyfnodau o oedi yn aml. Er bod yr uned yn gallu cael gafael ar rai cadeiriau olwyn dros dro, a'i bod yn cael cymorth gan elusen SPUR, nid oedd ateb hirdymor ar waith i sicrhau bod yr holl gleifion yn eu cael yn amserol.

#### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses ar gyfer cael gafael ar gadeiriau olwyn trydan i'r cleifion yn cael ei rhoi ar waith er mwyn helpu i ddiwallu anghenion gofal unigol yn amserol.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal o safon yn cael ei ddarparu i'r cleifion mewn ffordd ddiogel a chlinigol effeithiol. Roedd y cynlluniau gofal wedi'u personoli ac roedd y gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gwelsom fod y cleifion yn yr uned i'w gweld yn gyfforddus a'u bod yn cael gofal da. Yn y sampl o gofnodion gofal y cleifion a welwyd, gwelsom fod adnoddau asesu risg a bwndeli gofal<sup>5</sup> yn cael eu defnyddio. Roedd y rhain yn helpu i hybu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd gwybodaeth am bob claf yn cael ei harddangos yn ardal y staff, a oedd yn rhoi gwybodaeth gyfredol i'r staff am statws presennol yr holl gleifion. Gwelsom fod y wybodaeth hon yn cael ei diweddarau ar bob adeg trosglwyddo sifftiau, er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff wybodaeth berthnasol a chyfredol er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd yn ymddangos bod trefniadau rheoli poen y cleifion yn cael eu rheoli'n dda, a bod analgesia (meddyginiaeth lleddfu poen) yn cael ei ragnodi ar sail unigol, yn unol â gofynion y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd yr uned yn defnyddio adnodd asesu poen ffurfiol, ac ni welsom fod sgoriau poen yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Felly, ceir risg nad yw poen y cleifion yn cael ei werthuso'n effeithiol, gan nad oes meincnod ar waith ar gyfer sgorio poen ac effeithiau meddyginiaeth lleddfu poen ar ôl ei rhoi.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod nifer o archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd. Nod y rhain oedd nodi meysydd i'w gwella er mwyn gallu cymryd camau unioni fel y bo'n briodol.

Gwelsom fod gwybodaeth am ddigwyddiadau clinigol yn cael ei harddangos yn ystafell fwyta'r cleifion. Mae gwneud hyn yn rhoi gwybodaeth i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr am nifer yr achosion clinigol perthnasol, fel briwiau pwyso, cwmpiadau a heintiau. Hefyd, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i nodi pa weithgarwch gwella sydd ei angen i hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Gwelsom fod y wybodaeth hon yn cael ei diweddarau bob mis.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau holl elfennau allweddol gwaith asesu a rheoli poen, ac yn monitro poen y cleifion yn gyson.

---

<sup>5</sup> Set o ymyriadau yw bwndel gofal, sydd, o'u defnyddio gyda'i gilydd, yn gwella canlyniadau cleifion yn sylweddol.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion a gwelsom eu bod o safon dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn trefn resymegol, gan olygu ei bod yn hawdd pori drwyddynt. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle, ac roedd tystiolaeth glir i ddangos pa aelod o'r staff oedd wedi bod yn trin y claf dan sylw. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cofnodion bob amser yn dangos pan oedd y cleifion wedi cael cymorth i droi neu newid safle yn y gwely ar adegau diffiniedig, er mwyn helpu i atal briwiau pwyso, na lle roedd offer codi a symud wedi cael eu defnyddio i gyflawni tasgau o'r fath.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion gofal y cleifion yn dangos yn glir y lefel o ofal a chymorth sydd ei hangen ar y cleifion ac a ddarperir iddynt.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd strwythur rheoli ar waith a gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol a chefnogol yn yr uned. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen amser gweinyddu ychwanegol er mwyn i reolwr yr uned gael digon o amser i gyflawni a chwblhau'r holl gyfrifoldebau rheoli.

Cafodd gwaith tîm amlddisgyblaethol effeithiol ei ddisgrifio a'i ddangos. Gwelsom fod tîm yr uned yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, a'i fod yn canolbwyntio ar y cleifion.

Roedd problemau'n ymwneud â phrinder staff yn yr uned, a oedd yn cael effaith ar forâl y staff.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y staff gwblhau hyfforddiant perthnasol a chael arfarniad amserol o'u gwaith.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd rheolwr yr uned yn gyfrifol am reoli'r uned o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad roedd yr uned yn brin o staff, gan olygu bod angen i reolwr yr uned gyflawni rôl glinigol.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr yr uned wedi bod yn y swydd ers tua pum mis, a'i fod yn bwriadu gwneud newidiadau i rai prosesau a gweithdrefnau er mwyn cefnogi'r staff a'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r problemau presennol mewn perthynas â phrinder staff, roedd angen i reolwr yr uned wneud gwaith clinigol yn aml. Golygai hyn ei bod yn cymryd mwy o amser i roi'r newidiadau ar waith a'u hymgorffori mewn ymarfer wedi hynny. Roedd yr uned ar fin penodi dau ddirprwy reolwr ward, gyda'r nod o alluogi rheolwr yr uned i ganolbwyntio ar dasgau anghlinigol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr yr uned â'r tîm rheoli ehangach yn yr uned.

Roedd y sylwadau gan y staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos bod aelodau'r tîm yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod system o weithgarwch archwilio clinigol rheolaidd ar waith, fel y gellid nodi meysydd i'w gwella a mynd i'r afael â nhw fel y bo'n briodol. Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ganfyddiadau archwiliadau a monitro cynlluniau gwella fel rhan o drefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd. Hefyd, disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth y staff o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Fel y nodwyd o'r blaen, gwnaethom wahodd y staff sy'n gweithio yn yr uned i gwblhau holiadur AGIC. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o'r staff yn ystod ein harolygiad.

Dyweddodd y staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad. Roedd y sylwadau hefyd yn dangos bod y staff yn teimlo bod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal y cleifion. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff ar y cyfan, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod yr uwch-reolwyr yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig yn rheolaidd, ac yn gweithredu ar adborth gan y staff.

Yn ystod ein sesiwn adborth ar ddiwedd yr arolygiad, dangosodd yr uwch-aelodau o staff y bwrdd iechyd ddealltwriaeth glir o'r materion ac ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

## **Staff ac adnoddau**

### **Y Gweithlu**

Gwelsom fod tîm ymroddedig o staff yn yr uned a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Oherwydd rhai problemau yn ymwneud â phrinder staff, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod morâl yn isel yn yr uned.

Er bod trosiant y staff yn isel yn yr uned, roedd hi'n anodd recriwtio staff i lenwi swyddi gwag. Golygai hyn fod nifer o swyddi gwag heb eu llenwi ar hyn o bryd, gan arwain at broblemau staffio uniongyrchol yn yr uned. Gwelsom hyn yn ystod yr arolygiad, a chadarnhaodd yr uwch-reolwyr a staff yr uned eu bod yn aml yn gweithio heb y niferoedd gofynnol o nyrsys cymwysedig. Byddai'r uned yn defnyddio gweithwyr cymorth gofal iechyd ychwanegol yn ystod y cyfnodau hyn, er mwyn helpu i sicrhau bod gofal y cleifion yn cael ei flaenoriaethu a'i ddarparu mewn modd amserol. Oherwydd natur anghenion gofal y cleifion, dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod hyn yn ffordd fwy diogel o reoli'r problemau staffio a

sicrhau bod y cleifion yn cael eu cefnogi yn y ffordd gywir, tra eu bod wrthi'n recriwtio staff i lenwi'r swyddi gwag.

Cafodd problemau staffio yn y tîm therapi galwedigaethol eu disgrifio'n gynharach yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth wroleg yn yr uned. Gwelsom fod hyn yn effeithio ar y ffordd y caiff therapïau a gofal clinigol eu darparu i rai o'r cleifion.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallent gael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Gwelsom fod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn cael ei monitro, ond gwelsom fod y gyfradd cydymffurfio yn isel. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch-reolwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r mater a'i bod yn aml yn anodd rhyddhau staff i gael hyfforddiant oherwydd y problemau staffio.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr yr uned wedi cynllunio rhaglen hyfforddi newydd yn ddiweddar yn benodol ar gyfer anghenion y staff sy'n gweithio yn yr uned, a fyddai'n cael ei chyflwyno dros y 12 mis nesaf.

Nododd pob aelod o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o hyfforddiant neu ddysgu a datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd y rhan fwyaf o'r farn bod hyn yn eu helpu i fodloni'r gofynion proffesiynol diweddaraf a, thrwy hynny, roi profiad gwell i'r cleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi cael arfarniad o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch-reolwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r mater ac y byddent yn gwneud gwaith monitro dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad o'i waith. Mae hyn yn hanfodol er mwyn monitro perfformiad y staff, yn ogystal â chynorthwyo'r staff nyrsio cofrestredig wrth iddynt ymgymryd â phroses ailddilysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, i barhau i fod wedi'u cofrestru â'u corff proffesiynol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Parhau i recriwtio staff i lenwi swyddi nyrsio gwag a rhannu ei gynlluniau ar gyfer hyn ag AGIC.
- Sicrhau bod y staff yn cael lefelau priodol o gymorth yn ystod cyfnodau anodd, megis cyfnodau o brinder staff, er mwyn sicrhau bod eu hiechyd a'u llesiant yn cael eu cynnal

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cynnig yr holl hyfforddiant gorfodol, ac unrhyw hyfforddiant perthnasol arall, a'u bod yn gallu cwblhau'r hyfforddiant hwnnw.
- Sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau amserol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Gwelsom fod meddyginiaethau wedi darfod yn cael eu storio ochr yn ochr â meddyginiaeth gyfredol y cleifion yn y cwpwrdd cyffuriau.	Roedd posibilrwydd y byddai'r staff sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth yn codi'r feddyginiaeth wedi darfod.	Codwyd y mater â rheolwr yr uned, y nyrs arweiniol a'r uwch-reolwyr.	Tynnwyd y feddyginiaeth wedi darfod o'r cwpwrdd cyffuriau ac fe'i storiwyd yn ddiogel cyn cael ei gwaredu'n ddiogel.

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty Rookwood

**Ward/adran:** 4 a 5 – Adsefydlu yn dilyn Anaf i'r Asgwrn Cefn

**Dyddiad arolygu:** 1 a 2 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Ysbyty:** Ysbyty Rookwood

**Ward/adran:** 4 a 5 – Adsefydlu yn dilyn Anaf i'r Asgwrn Cefn

**Dyddiad arolygu:** 1 a 2 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod offer cynorthwyol ar gael i'r cleifion sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r ystafell ymolchi yn amserol.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae pob un o'r cadeiriau cawod wedi cael eu hatgyweirio. Mae'r gwasanaeth yn ystyried opsiynau i gynyddu'r stoc o gadeiriau cawod er mwyn lleihau effaith offer diffygiol cymaint â phosibl.	Uwch-nyrs	Adolygu ym mis Ionawr 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried aildrefnu'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Mae'r Uwch-nyrs wedi dynodi unigolyn cyfrifol yn sefydliad y wardiau i gynnal yr hysbysfyrdau.	Uwch-nyrs	Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p data-bbox="304 320 797 392">digonol ar gael i ddarparu gofal mewn modd amserol a phriodol</p> <p data-bbox="107 995 797 1110">Rhoi sicrwydd bod gwasanaeth wroleg ar gael i'r cleifion a'u bod yn cael y gwasanaeth hwnnw yn amserol yn yr uned.</p>		<p data-bbox="1066 320 1648 711">safonau Cymdeithas Meddygaeth Adsefydlu Prydain ar gyfer uned lefel 1a, h.y. cynnydd o 3.64 wte yn seiliedig ar 26 o welyau. Mae angen i gymysgedd sgiliau'r lefel staffio uwch hon adlewyrchu gofynion gwasanaeth cenedlaethol (un o ddim ond 12 yn y DU a'r unig un yng Nghymru) a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth adsefydlu cymhleth ar gyfer pob llwybr asgwrn cefn.</p> <p data-bbox="1066 791 1648 903">Mae achos busnes yn cael ei baratoi ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar hyn o bryd.</p> <p data-bbox="1066 1038 1648 1313">Bellach, mae Meddyg Wroleg Ymgynghorol dynodedig sy'n rheoli unrhyw waith adolygu a rheoli ar gyfer cleifion mewnol ac sy'n dod i Rookwood unwaith y mis. Dechreuodd hyn ym mis Medi 2019. Mae'r Wrolegydd Ymgynghorol wedi cael adborth</p>	<p data-bbox="1671 935 1928 1094">Cyfarwyddwr Llawdriniaethau y Bwrdd Clinigol Llawfeddygaeth</p>	<p data-bbox="1951 991 2119 1031">Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cadarnhaol gan y tîm mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn ac mae ar gael i drafod gwaith rheoli cleifion gyda'r tîm rhwng ymweliadau		
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gyflawni ar gyfer yr offer sy'n cael eu storio yn yr uned, er mwyn sicrhau bod diogelwch y staff, y cleifion a'r ymwelwyr yn cael ei reoli'n briodol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Caiff adolygiad ac asesiad risg eu cwblhau, gan gydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd.	Uwch-nyrs	Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff safonau rheoli heintiau eu cynnal bob amser mewn perthynas â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y staff yn newid cyfarpar diogelu personol ar ôl rhoi gofal i un claf cyn rhoi gofal i glaf arall</li> </ul>	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Caiff archwiliad ei gynnal yn yr uned ar y cyd â'r adran Atal a Rheoli Heintiau a nyrs datblygu ymarfer niwrowyddoniaeth, a chaiff y canlyniadau eu rhannu â'r tîm.  Mae pob un o'r staff wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i newid cyfarpar diogelu personol rhwng cleifion	Uwch-nyrs	Rhagfyr 2019



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod digon o gel hylendid dwylo ar gael yn y fynedfa i'r uned</li> <li>Bod y cypyrddau a ddefnyddir i storio offer yn drefnus, yn lân ac yn daclus ac nad yw dillad gwely yn cael eu storio ar y llawr</li> <li>Mae angen asesu addasrwydd y peiriant rhew yng nghegin y cleifion ymhellach</li> <li>Ystyried a yw trefniadaeth, cynllun unedau, offer, cyfleusterau golchi dwylo a defnydd bwriadedig cegin y cleifion yn briodol</li> <li>Sicrhau bod unrhyw fwydydd sydd wedi darford yn cael eu tynnu allan o'r oergell, a bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal</li> <li>Sicrhau bod pob bin yn yr uned yn gweithio'n iawn ac yn briodol i bob claf ei ddefnyddio</li> </ul>		Mae gel hylendid dwylo bellach wedi cael ei roi wrth y fynedfa i'r uned.	Uwch-nyrs	Cwblhawyd
		Caiff gwiriad hylendid dwylo ei ychwanegu at y sesiwn frifio ddyddiol ar ddiogelwch a bydd y nyrs â chyfrifoldeb neu'r dirprwy yn cadw golwg ar y sefyllfa bob dydd.	Uwch-nyrs	Rhagfyr 2019
		Mae'r cypyrddau wedi cael eu tacluso. Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn cynnal hapwiriadau rheolaidd.	Nyrs Chyfrifoldeb	Rhagfyr 2019
		Gofynnwyd i'r adran Atal a Rheoli Heintiau asesu'r peiriant rhew er mwyn pennu a yw'n addas i gegin y cleifion.	Uwch-nyrs	Ionawr 2020
		Caiff adolygiad o addasrwydd cyfleusterau'r gegin yn Ysbyty Rookwood a'r cyfleuster newydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ei gynnal.	Uwch-nyrs	Rhagfyr 2019
		Bydd y nyrs â chyfrifoldeb neu'r dirprwy yn edrych yn yr oergell bob dydd a chaiff	Uwch-nyrs	Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Cynnal asesiad risg er mwyn sicrhau y gall yr uned gyrraedd safon addas o ran nyrsio ataliol, os bydd angen.</p>		<p>unrhyw fwydydd sydd wedi darfod eu tynnu allan a'u gwaredu.</p> <p>Cynhelir adolygiad o'r biniau er mwyn asesu a ydynt yn gweithio a threfnir rhaglen i roi biniau addas newydd yn eu lle.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cydnabod bod hyn yn wendid yn ein cyfleuster. Mae'r opsiynau'n gyfyngedig o ran y gallu i gynyddu nifer y ciwbiclau. Fodd bynnag, mae cyfraddau heintiau yn isel ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Bydd y cyfleuster newydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau yn mynd i'r afael â'r pryder hwn; bydd nifer y ciwbiclau sengl yn cynyddu'n sylweddol.</p>	<p>Nyrs Chyfrifoldeb</p> <p>â</p>	<p>Eir i'r afael â hyn yn llawn ar ôl i'r uned newydd gael ei chwblhau</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i brydau bwyd gael eu gweini.</p>	<p>2.5 Maeth a Hydradu</p>	<p>Caiff y staff eu hatgoffa o'r angen i helpu'r cleifion i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd</p>	<p>Nyrs Chyfrifoldeb</p> <p>â</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd y gwasanaeth yn caffael weips dwylo ar gyfer yr ardal fwyta i'r cleifion sy'n gallu bwydo eu hunain eu defnyddio.	Uwch-nyrsys	Ionawr 2020
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer meddyginiaeth sydd wedi darfod a bod meddyginiaeth o'r fath yn cael ei thynnu oddi yno a'i gwaredu'n brydlon, lle bo hynny'n berthnasol</li> <li>Sicrhau bod gwybodaeth am alergeddau'n cael ei diweddarau'n glir yng nghofnodion yr holl gleifion</li> </ul> <p>Ailasesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chleifion nad ydynt yn gwisgo bandiau adnabod, yn enwedig ar gyfer sefyllfaoedd megis claf yn llewygu a'i anallu i gyfathrebu mewn sefyllfaoedd o'r fath.</p>	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Mae'r gwasanaeth wedi pwysleisio wrth y gwasanaeth fferyllfa bwysigrwydd sicrhau bod meddyginiaeth sydd wedi darfod yn cael ei gwaredu'n amserol</p> <p>Bydd y nyrs â chyfrifoldeb yn cynnal hapwiriadau.</p> <p>Atgoffir y staff o bwysigrwydd cofnodi statws alergedd y cleifion. Cynhelir adolygiad o alergeddau fel rhan o'r archwiliad 'yn ôl i'r hanfodion' misol ac unwaith eto fel rhan o'r archwiliad rheoli meddyginiaethau bob chwe mis.</p> <p>Cynnal adolygiad o'r defnydd o fandiau adnabod mewn lleoliad adsefydlu gan ystyried dymuniadau'r cleifion.</p>	<p>Uwch-nyrsys</p> <p>Uwch-nyrsys</p> <p>Meddyg Ymgynghorol Arweiniol</p> <p>Nyrs Datblygu Ymarfer</p>	<p>Ionawr 2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Ionawr 2020</p> <p>Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Ysgrifennu gweithdrefn weithredu safonol i ategu'r broses.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses ar gyfer cael gafael ar gadeiriau olwyn trydan i'r cleifion yn cael ei rhoi ar waith er mwyn helpu i ddiwallu anghenion gofal unigol yn amserol.	2.9 Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig	Mae'r tîm therapi galwedigaethol yn rheoli cyflenwad o gadeiriau olwyn er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaeth yn y cyfnod adsefydlu. Mae'r angen i ymestyn ac ailgyflenwi stoc dreuliedig wedi cael ei uwchgyfeirio at y Gwasanaeth Symudedd Ystumiol (PMS) a'r Gyfarwyddiaeth. I'w adolygu	PMS	Adolygu ddiwedd mis Ionawr 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau holl elfennau allweddol gwaith asesu a rheoli poen, ac yn monitro poen y cleifion yn gyson.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Bydd y gwasanaeth yn meincnodi gydag unedau asgwrn cefn eraill ledled y DU. Wedyn bydd y tîm amlddisgyblaethol yn trafod yr adnodd mwyaf priodol i'w ddefnyddio yn y grŵp o gleifion.  Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i asesu, rheoli a monitro poen y cleifion yn gyson	Meddyg Ymgynghorol Arweiniol  Nyrs Chyfrifoldeb â	Mawrth 2020  Tachwedd 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion gofal y cleifion yn dangos yn glir y lefel o ofal a	3.5 Cadw cofnodion	Mae uwch-aelodau o'r tîm nyrsio wedi trefnu cyfarfod ar gyfer 29/11/2019 lle y caiff trefniadau dogfennu a chadw	Nyrs Datblygu Ymarfer	Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
chymorth sydd ei hangen ar y cleifion ac a ddarperir iddynt.		cofnodion eu trafod. Bydd archwiliadau 'yn ôl i'r hanfodion' a'r gwersi a ddysgir ohonynt yn cefnogi'r gwaith o roi cynllun gwella ar waith.		
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i recriwtio staff i lenwi swyddi nyrsio gwag a rhannu ei gynlluniau ar gyfer hyn ag AGIC.</li> <li>Sicrhau bod y staff yn cael lefelau priodol o gymorth yn ystod cyfnodau anodd, megis cyfnodau o brinder staff, er mwyn sicrhau bod eu hiechyd a'u llesiant yn cael eu cynnal</li> <li>Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cynnig yr holl hyfforddiant gorfodol, ac unrhyw hyfforddiant perthnasol arall, a'u bod yn gallu cwblhau'r hyfforddiant hwnnw.</li> </ul>	7.1 Y Gweithlu	<p>Mae'r gwasanaeth wrthi'n recriwtio staff i lenwi swyddi gwag. Mae tair swydd band 5 ac un swydd band 7 Nyrs Cyswllt Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty wedi cael eu cymeradwyo i'w hysbysebu. Penodir i'r swyddi hyn cyn bo hir gyda'r nod o sicrhau bod staff yn dechrau gweithio yn y swyddi hyn yn y flwyddyn newydd.</p> <p>Gwneir ymdrechion i fynd i'r afael â phob gwendid yn y sefydliad nyrsio. Caiff hyn ei fonitro yn unol â'r Ddeddf Staffio Diogel. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnig gwasanaethau llesiant i'r holl staff.</p> <p>Mae amserlen hyfforddi gynhwysfawr ar waith yn yr uned a gaiff ei chyflwyno yn</p>	<p>Uwch-nyrs</p> <p>Nyrs Chyfrifoldeb</p> <p>â</p>	Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau amserol.</li> </ul>		<p>ystod y 12 mis nesaf. Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb a'r Nyrs Datblygu Ymarfer yn cefnogi'r broses hon ac yn ei gwerthuso drwyddi draw. Y nod fydd sicrhau bod yr holl staff yn gallu cwblhau pob sesiwn hyfforddi orfodol sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl gan y bydd y sesiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr amserlen.</p> <p>Mae'r gwasanaeth yn anelu at recriwtio i swyddi Dirprwy Brif Nyrs y Ward/Nyrs â Chyfrifoldeb ddechrau 2020. Bydd hyn yn gwella gallu'r gwasanaeth o ran arweinyddiaeth broffesiynol ac, yn ei dro, yn golygu y bydd mwy o gyfle i arfarnu'r staff.</p>	Y Nyrs Datblygu Ymarfer a'r Nyrs â Chyfrifoldeb	<p>Tachwedd 2020</p> <p>Ebrill 2020</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Carys Fox**

**Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Clinigol Arbenigol**

**Dyddiad: 28 -11-2019**